# IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO

**(Multi Location Hybrid Micosoft Teams/Council Chamber)**

| **Members Present:** | **Dydd Gwener, 22 Medi 2023** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorwyr J Henton** |
| **Cynghorwyr**: | S.Thomas a/ac D.Whitelock |
| **Swyddogion yn bresebbol:** | Neil Chapple<br>MIke Shaw<br>Simon Hussellbee<br>Kath Cody<br>Sarah McCluskie |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

3. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

4. **CAIS AM DRWYDDED SAFLE - THE SURGE CAFE BAR - 74 COMMERICAL ROAD, TAI-BACH, PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**
***Penderfynodd*** yr Is-bwyllgor ***gymeradwyo'r*** cais am drwydded mangre, yn amodol ar amodau, a chyda diwygiad i'r amserlen weithredu, ac fel y'i hystyrir yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

**Amod[au]**

1. Yr oriau gweithredu yw:
    a. Oriau agor:
        i. Dydd Llun i ddydd Sul, 08:00 – 23:00.

b. Cyflenwi alcohol (ar y safle ac oddi arno):
   i. Dydd Llun i ddydd Sul, 11:00– 22:00

2. Yn dilyn yr amodau a gynigiwyd gan yr Heddlu, ac a gytunwyd gan yr Ymgeisydd, dyma'r amodau a osodir:

<u>Atal trosedd ac anhrefn</u>

a. Rhaid gosod system teledu cylch cyfyng ddigidol, neu gynnal system bresennol, yn y fangre a fydd yn weithredol ar bob adeg pan fydd y fangre ar agor i'r cyhoedd ac yn gallu darparu lluniau o ansawdd tystiolaethol ym mhob golau, yn enwedig adnabod wynebau. Rhaid i'r recordiadau teledu cylch cyfyng gael eu hamseru a'u dyddio'n gywir, a'u cadw am gyfnod o 31 diwrnod, a rhaid trefnu eu bod ar gael i'w gweld gan yr heddlu neu swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu ar gais.

   Rhaid i'r system gwmpasu'r ardaloedd canlynol:
   - Tu blaen allanol y fangre;
   - Mynedfa ac allanfeydd y fangre; ac
   - Ardaloedd cyhoeddus mewnol y fangre.

b. Bydd aelod o staff o'r fangre, sy'n gyfarwydd â gweithredu'r system teledu cylch cyfyng, ar y safle bob amser pan fydd y fangre ar agor i'r cyhoedd. Bydd yr aelod staff hwn yn gallu dangos a darparu data neu luniau diweddar i'r heddlu neu'r swyddog awdurdodedig gyda chyn lleied o oedi â phosib yn dilyn cais cyfreithlon.

c. Bydd llyfr cofnodi digwyddiadau'n cael ei gadw yn y fangre sy'n dangos manylion dyddiad ac amser ymosodiadau, anafiadau, damweiniau neu droadau allan, yn ogystal â manylion aelodau'r staff fu'n ymwneud â hyn, natur y digwyddiadau a'r cam gweithredu/canlyniad. Rhaid bod y llyfr ar gael i'w archwilio gan yr heddlu a swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Lleol.

ch. Bydd deiliad y drwydded mangre'n asesu'r angen am oruchwylwyr drysau ac yn darparu goruchwyliaeth drws rhwng yr amserau hynny, gan sicrhau bod nifer digonol o oruchwylwyr fel sy'n ofynnol gan yr asesiad risg. Bydd pob goruchwyliwr drws yn arddangos ei drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) mewn rhwymyn braich adlewyrchol pan fydd ar ddyletswydd.

d. Os caiff ei defnyddio, cynhelir cofrestr ddyddiol o bersonél diogelwch. Bydd y gofrestr yn dangos enw, cyfeiriad a rhif trwydded pob goruchwyliwr drws, a'r dyddiadau a'r amseroedd y maent yn gweithredu. Rhaid bod y gofrestr ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu a swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol.

<u>Amddiffyn plant rhag niwed</u>

dd. Bydd polisi 'Her 25' yn berthnasol a bydd angen Prawf Oed gan unrhyw berson sy'n ymddangos yn iau na 25 oed sy'n ceisio prynu neu yfed alcohol. Dylai'r dull gwirio fod yn fath o ddull adnabod sy'n dwyn ffotograff a dyddiad geni'r person ynghyd â marc holograffig, a dylid ei gyfyngu i'r canlynol:

- Cerdyn PASS Cynlluniau Prawf Oedran Achrededig e.e. Cerdyn y Dinesydd;
- Proof GB;
- Cerdyn ffotograff, trwydded yrru neu basbort.

e. Rhaid i'r fangre gadw cofnodion cyfoes o hyfforddiant staff mewn perthynas â gwerthiannau sy'n ymwneud ag oedran, ar ffurf ysgrifenedig neu electronig, sydd ar gael i'w harchwilio gan swyddog awdurdodedig.

f. Cedwir cofnod sy'n manylu ar bob achos o wrthod gwerthu alcohol. Dylai'r cofnod gynnwys y dyddiad a'r amser y gwrthodwyd gwerthu alcohol ac enw'r aelod o staff a wrthododd ei werthu. Dylai'r cofnod fod ar gael i'w archwilio yn y fangre gan yr Heddlu neu swyddog awdurdodedig y cyngor ar bob achlysur pan fydd y fangre

ar agor. Bydd llyfr gwrthod yn cael ei gynnal sy'n cofnodi dyddiad ac amser pob ymgais gan bobl dan 18 oed i brynu alcohol. Trefnir bod y llyfr ar gael i'w harchwilio gan yr Heddlu a/neu swyddog(ion) awdurdodedig y cyngor.

5. **THE SURGE CAFE BAR - EITEM ATODOL**

**Penderfynwyd:**
Ystyriwyd yr eitemau atodol ynghyd â'r prif adroddiad ar yr agenda.

**CADEIRYDD**